# CYNGOR

## (*CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT*)

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Iau, 2 Mawrth 2023** |
|---|---|
| **Y Maer:** | **Councillor R.Wood** |
| **Y Dirprwy Faer** | **Councillor C.Williams** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, T.Bowen, W.Carpenter, H.C.Clarke, C.Clement-Williams, M.Crowley, A.Dacey, H.Davies, H.Davies, O.S.Davies, R.Davies, S.E.Freeguard, C.Galsworthy, N.Goldup-John, W.F.Griffiths, S.Grimshaw, J.Hale, S.Harris, M.Harvey, J.Henton, S.K.Hunt, J.Hurley, C.James, C.James, N.Jenkins, J.Jones, L.Jones, R.G.Jones, S.Jones, C.Jordan, D.Keogh, S.A.Knoyle, E.V.Latham, C.Lewis, D.Lewis, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, R.Mizen, K.Morris, S.Paddison, S.M.Penry, D.M.Peters, C.Phillips, R.Phillips, S.Pursey, S.Rahaman, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds, A.J.Richards, P.D.Richards, P.Rogers, M.Spooner, S.Thomas, D.Whitelock, C.Williams, L.Williams a/ac R.W.Wood |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Curran, C.Furlow-Harris, C.Griffiths, A.James, A.Jarrett, H.Jones, K.Jones, C.Owen, N.Pearce, C.Saunders, M.Shaw, A.Thomas, Thomas a/ac J.Woodman-Ralph |
| **Cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cyfieithu:** | Nerys Hurford |

---

1. **CYHOEDDIADAU MEIRI**

Nid oedd unrhyw gyhoeddiadau.

2. **CYHOEDDIADAU ARWEINWYR**

Atgoffodd Arweinydd y Cyngor y cyngor, ar ddydd Gŵyl Dewi y llynedd, bu’r cyngor yn condemnio'r rhyfel erchyll yn erbyn Wcráin a arweinwyd gan Vladimir Putin a Llywodraeth Rwsia.

Dywedodd fod llawer o bobl wedi colli eu bywydau dros y flwyddyn ddiwethaf, mae cymunedau cyfan wedi cael eu difrodi gan ymosodiad Rwsia ar Wcráin ac mae llawer o bobl wedi ffoi o'u cartrefi i ddod o hyd i fan diogel. Bu effeithiau ehangach hefyd yn deillio o wneud ynni yn arf yn benodol, gan ychwanegu at y caledi yr oedd pobl eisoes yn ei brofi.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn falch o'r rôl y mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi'i chwarae wrth gynnig cymorth dyngarol i Wcraniaid sydd wedi gwneud eu ffordd i'n bwrdeistref sirol ac roedd yn falch hefyd o'r croeso cynnes a'r gefnogaeth barhaus a ddarperir gan bobl o bob rhan o'n cymunedau.  Ychwanegodd ei fod yn falch iawn o glywed y bobl o Wcráin yn siarad am y croeso maen nhw wedi ei gael ac yn bwysicach fyth eu bod yn teimlo'n ddiogel yma.

Gofynnwyd i'r cyngor gadarnhau eu cefnogaeth unwaith eto i Wcráin a phobl Wcráin.

Cynhaliodd y cyngor funud o dawelwch er mwyn talu teyrnged i'r rheini sydd wedi colli eu bywydau yn y rhyfel ofnadwy hwn ac i'r rheini y mae Putin a Llywodraeth Rwsia'n parhau i darfu ar eu bywydau.

## 3. <u>DATGANIADAU O FUDDIANNAU</u>

| | |
|---|---|
| Cllr Mike Harvey: | Mewn perthynas ag Eitem rhif 6 ar yr agenda Cynigion y Gyllideb Refeniw 2023/24, Eitem rhif 7 ar yr Agenda Treth y Cyngor 23/24 ac |

Eitem rhif 8 ar yr Agenda Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf 23/24 a 25/26 oherwydd caiff ei gyflogi gan Heddlu De Cymru.

4. **COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL**

Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

5. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

6. **2023/2024 CYNIGION CYLLIDEB REFENIW**

Cyflwynodd y Cynghorydd Simon Knoyle, Aelod y Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol yr adroddiad a gafodd ei argymell i'r cyngor gan y Cabinet ar 1 Mawrth 2023.

Eglurwyd, ar dudalen 17, bod y rhif 6 ar goll o'r frawddeg...'Gwasanaethau Hamdden a restrir yn Atodiad...' ac ar dudalen 37, dylai 'Rheswm dros Benderfyniad Arfaethedig' ddarllen 'i benderfynu ar y Gyllideb ar gyfer 2023/24'.

Diolchwyd i'r Prif Swyddog Cyllid, y Tîm Cyllid, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol am yr holl waith y maent wedi'i wneud wrth ddatblygu adroddiad y gyllideb sy'n cael ei ystyried yn y cyngor heddiw.

Eglurwyd bod y gyllideb hon wedi'i phenderfynu yn erbyn cefndir amgylchiadau eithafol gan gynnwys chwyddiant yn rhedeg ar 10%, y rhyfel yn Wcráin, yr argyfwng costau byw a'r cynnydd parhaus mewn costau ynni. Ond hefyd yn erbyn prosiectau adfywio megis cyrchfan £330m Wildfox, Canolfan Fyd-eang ar gyfer Rhagoriaeth Rheilffyrdd gwerth £400m a'r cais Porthladd Rhydd yn ogystal â cheisiadau llwyddiannus i Gronfa Codi'r Gwastad a Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU gwerth tua £28m.

Manylwyd bod y gyllideb yn cynnwys ymrwymiad o £4.25m i 'Lanhau a Glasu' sy'n mynd tuag at lanhau strydoedd, offer chwarae a gwella mannau cyhoeddus. Mae'r gyllideb hefyd yn ymrwymo i ddiogelu swyddi heb doriadau i wasanaethau sy'n cael eu cynnig.

Nodwyd bod y gyllideb yn adlewyrchu'r sefyllfa ariannol gadarnhaol ddoeth a etifeddwyd a oedd yn caniatáu i'r gyllideb hon roi sicrwydd

i'r gweithlu, preswylwyr, cydweithwyr mewn undebau llafur ac aelodau.

Eglurwyd bod 12 sioe deithiol wyneb yn wyneb wedi'u cynnal er mwyn ceisio ymgysylltu â chymunedau yn ogystal ag ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol ar-lein a dosbarthwyd copïau papur traddodiadol o'r ymgynghoriad. Rhoddwyd enghreifftiau ynghylch sut roedd yr adborth o'r ymarfer ymgynghori wedi cael ei ystyried, er enghraifft mae'r cynnydd arfaethedig mewn ffioedd a thaliadau wedi gostwng o'r 10% arfaethedig yn unol â chwyddiant i 5% yn ogystal â rhoi ymestyniad 2 flynedd i'r gwasanaeth hawliau lles ar waith.

Atgoffwyd y cyngor am y gwaith parhaus mewn partneriaeth â chydweithwyr undebau llafur i lobïo Llywodraeth Cymru am drefniant gwell a thecach.

Manylwyd mai nod y gyllideb yw datblygu’r gwaith o weithio tuag at bum piler allweddol:

Parhau i ganolbwyntio'n glir ar adfer o COVID-19.

Cefnogi ein Cymunedau drwy'r argyfwng Costau Byw.

Hwyluso a galluogi twf economaidd.

Cyflawni blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru.

Sicrhau cyngor cynaliadwy a sefydlog.

Er mwyn gwneud hynny, eglurwyd bod bwriad i gymryd £3.5m o Gronfeydd Cyffredinol sy'n gadael balans o £16.2m yng Nghronfeydd Wrth Gefn y Cyngor, yr ystyrir bod hynny'n iach. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn caniatáu i'r cronfeydd wrth gefn fod ar 4% o'r gyllideb refeniw net a fyddai'n caniatáu i'r cronfeydd wrth gefn fod ar £14.4m ond oherwydd ansicrwydd ynghylch prisiau ynni a materion anhysbys eraill fe'i hystyriwyd yn ddoeth cadw arian wrth gefn a chynnig defnyddio £3.5m o'r cronfeydd wrth gefn yn unig.

4.5% oedd y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor.

Codwyd pryder ynghylch y model ymgynghori, yn ogystal â'r diffyg manylder a gynhwysir yn y ddogfennaeth gyllidebol i fynd i'r afael â materion fel costau ynni cynyddol, cynhyrchu incwm.

Codwyd bod angen ymchwilio i ynni adnewyddadwy a'i ystyried fel blaenoriaeth i'r cyngor yn erbyn cefndir y costau ynni cynyddol sy'n cael eu hwynebu.

Awgrymwyd, oherwydd difrifoldeb parhaus yr argyfwng Costau Byw, y dylid gostwng y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor a dylid manteisio i'r eithaf ar y defnydd o gronfeydd wrth gefn.

Yn dilyn hynny, tynnwyd sylw at y ffaith na fyddai unrhyw ostyngiad yn Nhreth y Cyngor a lleihau cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn ddoeth nac yn gynaliadwy yn y dyfodol.

Argymhellwyd diwygiad i'r cyngor a chafwyd cais am bleidlais wedi'i chofnodi yn sgîl hyn, ar y diwygiad canlynol, a gafodd y gefnogaeth angenrheidiol yn unol â gofynion Adran 14.5 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor – Rheolau Gweithdrefn.

*Argymhelliad 4 - O ran gosod lefelau Treth y Cyngor ar gyfer 2023/24 gofynnir i'r cyngor gymeradwyo'r canlynol:*

> ***Bydd Treth y Cyngor yn 2023/24 yn cynyddu 2% yn hytrach na'r 4.5% fel y nodir yn yr adroddiad gyda'r bwlch o 2.5% yn cael ei ariannu o'r gronfa wrth gefn gyffredinol (sy'n cynrychioli swm ychwanegol o £1.5m yn cael ei gymryd ar gyfer 2023/2024). Felly, cyfanswm y cronfeydd wrth gefn cyffredinol i gydbwyso'r gyllideb yw £5m h.y. £3.5m a £1.5m. Bydd yr hyn sy'n cyfateb i Fand D 2023/24 ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yna'n £1693.22***

<u>O blaid y diwygiad:</u>

Cynghorwyr: A Aubrey, C Clement Williams, M Crowley, O Davies, C Galsworthy, M Harvey, C James (Cathy), L Jones, R Jones, D Keough, E V Latham, A Lockyer, S Grimshaw, R Mizen, S Paddison, S Penri, S Pursey, P. Rees, S Renkes, S Reynolds, P Richards, S Thomas, D Whitelock, L Williams, S Freeguard, S Rahaman.

<u>Yn erbyn y diwygiad:</u>

Cynghorwyr: T Bowen, W Carpenter, H C Clarke, A Dacey, H Davies (Hayley), H Davies (Heath), R Davies, N Goldup-John, W Fryer Griffiths, J Hale, S Harris, J Henton, S Hunt, J Hurley, C James (Chris), N Jenkins, J Jones, S Jones, C Jordan, S Knoyle, C Lewis, D Lewis, A Llewellyn, K Morris, M Peters, C Phillips, R Phillips, A Richards, P Rogers, M Spooner

Ymataliad:

Cynghorwyr: R Wood, C Williams (Chris)

O ganlyniad i'r uchod, methodd y diwygiad a dilynwyd cais am bleidlais wedi'i chofnodi, ar yr argymhelliad sylweddol a geir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, a gafodd y gefnogaeth angenrheidiol yn unol â gofynion Adran 14.5 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor – Rheolau Gweithdrefn.

O blaid yr argymhelliad:

Cynghorwyr: T Bowen, W Carpenter, H C Clarke, A Dacey, H Davies (Hayley), H Davies (Heath), R Davies, N Goldup-John, W Fryer Griffiths, J Hale, S Harris, J Henton, S Hunt, J Hurley, C James (Chris), N Jenkins, J Jones, S Jones, C Jordan, S Knoyle, C Lewis, D Lewis, A Llewellyn, K Morris, M Peters, C Phillips, R Phillips, A Richards, P Rogers, M Spooner

Yn erbyn yr argymhelliad:

Cynghorwyr: A Aubrey, C Clement Williams, M Crowley, O Davies, C Galsworthy, M Harvey, C James (Cathy), L Jones, R Jones, D Keough, E V Latham, A Lockyer, S Grimshaw, R Mizen, S Paddison, S Penri, S. Pursey, P Rees, S Renkes, S Reynolds, P Richards, S Thomas, D Whitelock, L Williams, S Freeguard, S Rahaman.

Ymataliad:

Cynghorwyr: R Wood, C Williams (Chris)

**PENDERFYNWYD:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. **Cymeradwyo cynigion a threfniadau'r gyllideb refeniw yn unol ag atodiad 1 yr adroddiad ar gyfer 2023/2024.**

2. a) Dirprwyo'r materion canlynol i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol priodol yn dilyn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, yr Aelod Cabinet perthnasol a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol:-

   -Ffïoedd a thaliadau (Swyddogaethau Gweithredol), sy'n berthnasol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/2024

-Ffïoedd a Thaliadau (Swyddogaethau Gweithredol) sy'n berthnasol ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol ddilynol ac, ym marn y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, y mae angen penderfynu arnynt cyn y flwyddyn ariannol am resymau gweithredol.

b) **Dirprwyir y materion canlynol i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol priodol yn dilyn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, y Dirprwy Arweinydd a phwyllgor anweithredol perthnasol**

- **Ffïoedd a Thaliadau (Swyddogaethau Anweithredol) sy'n berthnasol ar gyfer 2023/24**

- **Ffïoedd a thaliadau sy'n berthnasol ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol ddilynol ac, ym marn y Cyfarwyddwr Corfforaethol, y mae angen penderfynu arnynt cyn y flwyddyn ariannol am resymau gweithredol.**

3. Rhoi'r awdurdod i'r Prif Swyddog Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, yr Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol wneud unrhyw welliant angenrheidiol drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol o ganlyniad i unrhyw amrywiad rhwng taliad terfynol Llywodraeth Cymru a'r taliad dros dro.

4. Bydd Treth y Cyngor 2023/2024 yn cynyddu 4.5% ac fe fydd y Band D cyfatebol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn £1,734.72

7. **TRETH Y CYNGOR 2023/2024**

Cyflwynodd y Cynghorydd Simon Knoyle, Aelod y Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol yr adroddiad a oedd yn nodi'r cyfrifiadau a'r penderfyniadau angenrheidiol i'w cymeradwyo mewn perthynas â gosod lefel Treth y Cyngor ar gyfer 23/24 yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

**PENDERFYNWYD:**

a) Cymeradwyo bod unrhyw dreuliau a ysgwyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wrth berfformio, yn rhan o'i ardal, swyddogaeth a gyflawnir gan Gyngor Cymuned, mewn man arall yn ei ardal, yn cael eu trin fel treuliau cyffredinol.

b) Cymeradwyo bod ardoll Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe yn cael ei thrin fel treuliau cyffredinol.

c) Cymeradwyo'r symiau a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd ac atodiadau cysylltiedig fel y'u cyfrifir yn unol ag Adrannau 32 i 36 yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

8. **STRATEGAETH GYFALAF A RHAGLEN GYFALAF**

Cyflwynodd y Cynghorydd Simon Knoyle, Aelod y Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol yr adroddiad a oedd yn nodi'r Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24 i 2025/26.

**PENDERFYNWYD**:

Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf.

Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24 fel y nodir yn Atodiad 2.

Cymeradwyo'r trefniadau dirprwyo a nodir yn yr adroddiad.

9. **STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS, STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL, A PHOLISI DARPARU ISAFSWM REFENIW**

Cyflwynodd y Cynghorydd Simon Knoyle, Aelod y Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol yr adroddiad sy'n nodi Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Buddsoddi Flynyddol a Pholisi Darpariaeth Isafswm Refeniw y cyngor ar gyfer 2023/24.

**PENDERFYNWYD:**

- Cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
- Cymeradwyo'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol
- Cymeradwyo'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw
- Cymeradwyo'r Polisi Dangosyddion Darbodus.

10. **NEWIDIADAU I AELODAETH PWYLLGOR**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yr adroddiad a oedd yn awdurdodi newidiadau i ddyrannu seddi ar bwyllgorau cynghorau a chyrff allanol i'r grwpiau gwleidyddol fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r newidiadau i aelodaeth pwyllgorau fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd

11. **HYSBYSIAD O GYNNIG O DAN ADRAN 10 O RAN 4 (RHEOLAU GWEITHDREFNAU) CYFANSODDIAD Y CYNGOR**

Ni dderbyniwyd unrhyw Hysbysiadau o Gynnig.

12. **CWESTIYNAU GAN AELODAU, GYDA HYSBYSIAD, DAN REOL 9.2 O REOLAU GWEITHDREFNAU'R CYNGOR**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

13. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CHAIRPERSON**